astudiaeth achos

Carmarthenshire CONNECT

CYSWLLT Sir Gaerfyrddin

Gwerthuso ‘Cadw’r Cywir’ Gan Ddefnyddio Cyfryngau Digidol a TGCh

Chris Lewis
Cydlynydd Prosiect

Crynodeb

Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut mae modd defnyddio camerâu fideo digidol cost isel i gasglu data gwerthuso hydredol ar gyfer prosiectau. Fe fu Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn helpu cyfranogwyr mewn prosiect theatr ieuenctid i recordio cyfweliadau gwerthuso gyda'i gilydd trwy gydol oes y prosiect.

Cefndir

Mae Cwmni Theatr Mess Up The Mess yn gwmni theatr i bobl ifanc yn ardal Cymunedau yn Gyntaf Dyffryn Aman Uchaf. Fe gyflogodd brosiect Keeping It Real / Cadw'r Cywir actorion proffesiynol ac awdur / cyfarwyddwr i weithio gyda grwpiau o bobl ifanc mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin ac ym Mhowys i ddyfeisio a pherfformio drama ddwyieithog yn seiliedig ar eu syniadau. Trwy gydol y broses, fe fu aelodau ifanc Cwmni Theatr Mess Up The Mess yn gweithredu fel panel ieuenctid, gan oruchwylio cyfeiriad y prosiect a sicrhau bod mewnbwn pobl ifanc yn cael ei barchu a'i adlewyrchu yn y cynhyrchiad terfynol. Fe fu aelodau Cwmni Theatr Mess Up The Mess hefyd yn cymryd rhan yn y perfformiadau.

Roedd Cyswllt Sir Gaerfyrddin eisoes wedi gwneud peth gwaith estyn allan gyda Chwmni Theatr Mess Up The Mess a chafwyd gwahoddiad i helpu'r grŵp i ddefnyddio cyfryngau digidol wrth werthuso Keeping It Real / Cadw'r Cywir.

Dibenion Cynnwys y Gymuned

Diben: Helpu aelodau Cwmni Theatr Mess Up The Mess i ddefnyddio cyfryngau digidol i gasglu tystiolaeth i werthuso'r prosiect trwy gydol proses prosiect Keeping It Real / Cadw'r Cywir. Fel rhan o'u cytundeb nawdd, roedd Cwmni Theatr, Mess Up The Mess wedi ymrwymo i werthuso sawl agwedd o'r prosiect gan ddefnyddio dulliau digidol.

Y Broses o Gynnwys y Gymuned

Mewn cyfarfod cychwynnol gyda Chwmni Theatr Mess Up The Mess cadarnhawyd amcanion y gwerthusiad: sef canolbwyntio ar werthuso profiadau pobl ifanc wrth iddynt weithio gyda gweithwyr proffesiynol a'r defnydd o broses weithio ddwyieithog.

Roedd Cyswllt Sir Gaerfyrddin newydd brynu 5 camera fideo digidol 'Busbi' cost isel. Mewn cydweithrediad â Chwmni Theatr Mess Up The Mess, datblygwyd nifer o ymarferion gan ddefnyddio'r camerâu hyn i gasglu data penodol i gefnogi amcanion y gwerthusiad. Roedden nhw'n cynnwys:

Cardiau Ciw - Cardiau A4 gyda geiriau ysgrifenedig arnynt fel awgrym i annog y cyfranogwyr i fynegi eu barn a'u teimladau ar y camera. Er enghraifft, yn y gweithdy cyntaf, defnyddiwyd cerdyn 'Gobeithion ac Ofnau' a gofynnwyd i gyfranogwyr siarad am eu gobeithion a'u hofnau ar gyfer y prosiect. Hanner ffordd drwy'r prosiect, roedd y cerdyn "Wythnos Diwethaf… / Yr Wythnos

Hon…" yn galluogi'r cyfranogwyr i ddatgelu sut yr oedd eu barn wedi newid yn ystod y broses.

Cwestiynau Cyfweld - Cardiau cwestiwn A5 y mae cyfranogwyr yn eu defnyddio wrth recordio cyfweliadau gyda'i gilydd. Er enghraifft, "Beth yw eich barn chi am y broses hyd yn hyn?"

Fy Ngair - Mae cyfranogwyr yn cael cerdyn A4 gwag a gofynnir iddynt ddewis gair (yn Gymraeg neu'n Saesneg) sy'n crynhoi eu teimladau ynghylch y prosiect. Os nad ydynt yn gallu meddwl am air, gofynnir iddynt ddyfeisio gair. Mae cyfranogwyr yn ffilmio'i gilydd yn dal eu cardiau i fyny ac yn esbonio'u dewis.

Cynhaliwyd un neu fwy o'r ymarferion hyn ar ddiwedd bob sesiwn gweithdy gyda'r panel ieuenctid. Cyhoeddwyd y defnyddiau a gasglwyd ar flog preifat yr oedd gan bob cyfranogwr fynediad ato, fel bod modd cynnal trafodaeth yn ystod y cyfnod rhwng sesiynau gweithdy.

Roedd yn ymddangos bod y defnydd o gamerâu 'Busbi' yn chwalu rhwystrau: wrth ffilmio, fe fu'r cyfranogwyr yn mabwysiadu cymeriadau'r cyfwelydd a'r person a oedd yn cael ei g/chyfweld fel ei bod yn haws iddynt siarad yn rhydd a meddwl yn ôl dros yr hyn yr oedden nhw wedi bod yn ei wneud. Wrth iddyn nhw ddod yn fwy cyffyrddus gyda'r broses, gwelwyd y cyfranogwyr yn magu hyder gan ychwanegu eu cwestiynau 'dilynol' eu hunain, ac archwilio'r rhesymau tu ôl i farn a theimladau ei gilydd, ac, yn naturiol, dechreuwyd casglu deunydd mwy cyfoethog ar gyfer y gwerthusiad.

Copïwyd yr holl ddeunydd a gasglwyd yn ystod y broses ar Gryno Ddisg ac fe'i defnyddiwyd i fwydo ac i gefnogi'r adroddiad gwerthuso a gyflwynwyd i noddwyr y prosiect. Roedd y deunydd a gyhoeddwyd ar flog preifat y prosiect hefyd yn galluogi'r cyfranogwyr i adolygu eu profiadau eu hunain ac adnabod sut yr oedden nhw wedi datblygu drwy'r broses.

Manteision ac Anfanteision

Manteision

- Ffordd dda o gasglu data gwerthuso hydredol sydd â gwerth sylweddol i gyfranogwyr, am ei bod yn ffordd newydd o wneud pethau ac mae pobl felly yn awyddus i'w defnyddio.
- Dull pleserus o werthuso sydd, efallai, yn fwy addas a llwyddiannus ymhlith grwpiau pobl ifanc na dulliau 'sych', mwy traddodiadol
- Annog adfyfyrio personol sydd, efallai, ddim yn digwydd gyda dulliau mwy traddodiadol
- Roedd y broses o gasglu eu hadborth ar ddiwedd pob sesiwn yn pwysleisio ac yn egluro'r ffaith fod angen barn cyfranogwyr, a bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi, yn gyson
- Wrth recordio fideos o'r cyfranogwyr, mae yna ddata cyfoethog a allai gael mwy o effaith wrth gyflwyno canlyniadau

Anfanteision

- Rhywfaint o bosibilrwydd o darfu ar y prif weithgaredd os nad yw'r gwerthuso'n cael ei gadw ar wahân
- Angen bod yn llym gyda'ch hun i sicrhau bod digon o amser yn cael ei gadw ar gyfer y gwerthuso ar ddiwedd pob sesiwn
- Mae'r broses yn gallu creu swm sylweddol o ddata ac fe allai fod yn anodd ei ddadansoddi

Cyfeiriadau

http://www.carmsconnect.org.uk/2008/07/keeping-it-real.html

http://www.carmsconnect.org.uk/2008/07/keeping-it-real-opens-this-week.html

http://www.messupthemess.co.uk